Strategaeth arloesi i Gymru

Eich enw: David Cook

Mudiad (os yw'n berthnasol): Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

E-bost / Rhif ffôn: dcook@wcva.cymru

Eich cyfeiriad: CGGC, Un Heol Dumballs, Caerdydd

C1: Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor byr (1 mlynedd) o ran:

O fewn y flwyddyn gyntaf, hoffem weld y sylfeini'n cael eu gosod i alluogi ac ysbrydoli pobl sy'n gweithio ar draws pob sector i ddefnyddio dulliau arloesol a manteisio ar y 'nodweddion cyffredin arloesi' ehangach.

Hoffai CGGC weithio gyda'r llywodraeth a chyda phartneriaid ehangach i greu labordy arloesi ar gyfer y sector gwirfoddol. Byddai hwn yn adeiladu ar sgiliau a chapasiti arloesi'r sector gwirfoddol ac yn cynnig lle i fudiadau weithio gyda phobl eraill ar ddatrysiadau arloesol i'r heriau y mae eu buddiolwyr yn eu hwynebu.

Byddai'n cynorthwyo mudiadau gwirfoddol ar hyd a lled Cymru i ddefnyddio technegau arloesi. Byddai'n hyrwyddo arloesedd a arweinir gan y gymuned ac yn ennyn mwy o ddealltwriaeth o ble gall mudiadau gwirfoddol eistedd yn yr ecosystem arloesi. Byddai adeiladu'r capasiti a chreu'r rhwydweithiau hyn yn galluogi mwy o fudiadau amrywiol i fanteisio ar hybiau arloesi traws-sector a chyfrannu at genadaethau cenedlaethol.

Hefyd yn y flwyddyn gyntaf, byddai CGGC hefyd yn hoffi gweld cronfa fechan i gynorthwyo mentrau bach, seiliedig ar leoedd ledled Cymru i ddefnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r 'problemau enbyd y maen nhw'n eu hwynebu. Byddai hyn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ddiweddar ar drawsnewid a arweinir gan y gymuned, a gafodd ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan Nesta. Dangosodd hwn sut gall grymuso cymunedau i arwain newid nid yn unig arwain at drawsnewid unigolion, ond hefyd gyfrannu at ddatrysiadau ehangach fel unigrwydd, y newid yn yr hinsawdd a thai fforddiadwy. Byddai'r hyn a ddysgir o'r mentrau hyn hefyd yn adeiladu ar yr hyn a wyddom am y newid systemau sydd ei angen os ydym am weld symudiad i rymuso arloesedd a arweinir gan y gymuned ledled Cymru.

Mae'r arloesedd ar lefel gymunedol a'r arloesedd y mae mudiadau gwirfoddol eisiau ei arwain yn tueddu i dorri ar draws twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol a'r hinsawdd a'r amgylchedd. Yn ogystal â'r gwaith uchod, dangoswyd hyn ym mhrosiect Dyfodol y Sector Gwirfoddol – a gafodd ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno ar y cyd gan Futurice – a phrosiect Dyfodol Gwell Cymru: Prosiect Rhagolwg Cymunedol, a gafodd ei gyd-gynhyrchu gan grwpiau cymunedol a'r Ysgol Dyfodol Rhyngwladol (gwefan Saesneg yn unig).

Mae'r holl brosiectau hyn wedi'u cyflawni'n gyflym, gan ddefnyddio methodolegau arloesi. Byddai CGGC yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth a phobl eraill er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth.

Noder: Isod, rydym wedi ymateb i'r pwyntiau bwled unigol ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Maen nhw i gyd yn gysylltiedig ac yn canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar y sut a'r pam yn hytrach na'r pryd.

- twf economaidd

Mae CGGC yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Economi Lesiant yng Nghymru a'i haelodaeth o bartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (gwefan Saesneg yn unig). Os ydym am fynd i'r afael â'r heriau caled y mae cymdeithas yn ei hwynebu heddiw, mae angen i ni fod yn glir nad yw 'twf economaidd' yn uchelgais yn ei hun. Mae angen iddo gynorthwyo Cymru i gyrraedd y Nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler y papur gwyntyllu ar Ymateb i argyfwng yr hinsawdd am drafodaeth bellach). Hoffem weld y Strategaeth Arloesi yn amlinellu'r her sylfaenol o sut gallwn symud gyda'n gilydd at economi lesiant.

Yn gyffredinol, mae CGGC yn rhoi mwy o flaenoriaeth i wydnwch economaidd na thwf economaidd, a hoffem weld y Strategaeth Arloesi yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod Cymru yn gallu bod yn fwy gwydn yng ngŵydd yr heriau presennol a'r heriau i ddod. Mewn llawer o achosion, bydd blaenoriaethu gwerth cymdeithasol dros werth economaidd yn gwella gwydnwch yn sylweddol. Fel hyn, mae Cymru yn fwy tebygol o ddod yn fwy cyfartal, cynaliadwy a ffyniannus. Heb wydnwch, bydd unrhyw dwf yn debygol o gael ei gyfyngu.

Mae gan fentrau cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae yn hyn. Mae eu dull llinell waelod triphlyg, pobl/planed/elw yn cyflwyno buddion profedig o ran creu swyddi, tegwch cymdeithasol, trechu argyfwng yr hinsawdd ac, yn wir, ffyniant economaidd. Dylid ymwreiddio'r dull gweithredu hwn yn y strategaeth a nodi'r sectorau allweddol lle y bydd dull menter gymdeithasol o weithredu busnes yn cael yr effaith fwyaf. Dylid hwyluso'r sector mentrau cymdeithasol i ymhél â gweithgareddau arloesi, fel y model busnes sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i heriau Cymru.

Rhaid i gaffael cyhoeddus gydnabod capasiti mudiadau'r sector gwirfoddol i'w hwyluso i fod yn gyfranwyr mwy arwyddocaol. Mae angen partneriaeth briodol rhwng sectorau wrth ddatblygu datrysiadau, ynghyd ag ymrwymiad gan y sector cyhoeddus i ddod yn un o gwsmeriaid y sector gwirfoddol am gyfnod hirdymor. Bydd hyn yn rhoi'r cymhelliant i fudiadau fuddsoddi mewn datblygu modelau arloesi, ac yn rhoi'r hyder i fuddsoddwyr gefnogi'r costau cysylltiedig.

Dylai'r Strategaeth nodi y dylai pobl gael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w galluogi i ymhél â gweithgareddau llesiant a chael mwy o incwm gwario.

Yn yr hirdymor, rhaid cael sicrwydd bod y buddion economaidd a grëir gan arloesedd yng Nghymru, yn gyntaf, yn gynaliadwy, ac yn ail, yn aros o fewn Cymru. Mae'r

Economïau Cylchol a Sylfaenol yn mynnu cael y parhad a'r ailddefnydd o ddeunyddiau a fydd yn cefnogi hyn.

Dylai un elfen o'r strategaeth gefnogi'r holl sectorau i ddefnyddio dulliau arloesi i wella canlyniadau. Er enghraifft, mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA) wedi nodi bod angen ystyried arloesi model busnes yn y sector chwaraeon, a chefnogaeth i helpu mudiadau i symud i ffrydiau incwm newydd a masnacheiddio agweddau ar eu busnes. Yn y modd hwn, gall grwpiau symud y tu hwnt i ddibynnu ar ffioedd ymaelodi aelodau ac incwm o ddigwyddiadau. Sut gallwn ni roi'r adnoddau iddynt i greu datrysiadau gan ddefnyddio dulliau arloesi?

- datblygu sgiliau

Er mwyn adeiladu sgiliau a fydd yn galluogi arloesedd, dylai'r Strategaeth ystyried cymaint â phosibl o grwpiau o bobl, nid dim ond y rheini sydd eisoes yn fedrus. Mae yna unigolion nad ydynt bob amser yn gallu gweithio'u ffordd drwy lwybrau addysg a phrifysgol traddodiadol, ac yna'n cael swyddi mewn sectorau hyfedr. Bydd wastad llwybrau eraill, boed y rheini'n golegau, yn brentisiaethau neu, yn syml, cael swydd ar lefel sylfaen a gwneud hyfforddiant mewn swydd neu gyrsiau hyfforddi i ganfod ffordd o ddringo'r ysgol yrfaol. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru wedi nodi nad yw'r Strategaeth yn canolbwyntio digon ar y rheini a gaiff eu labelu'n gyffredinol fel NEETs (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Rhaid i bobl ifanc gael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan ac ymhél ag arloesi yng Nghymru, waeth beth yw eu demograffeg neu ble maen nhw'n byw, er enghraifft.

Maes arall i'w ystyried yw sgiliau'r boblogaeth weithio bresennol (nid dim ond y cenedlaethau a fydd yn gweithio yn y dyfodol). Mae angen i bobl sydd mewn perygl o golli eu swyddi neu bobl ddi-waith gael cyfleoedd i ddechrau ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag amcanion Cymru, fel bod y sgiliau angenrheidiol ar gael i'r sectorau a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu nawr ac yn y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar yr holl bwyntiau mewn bywyd unigolyn lle y bydd yn ennill sgiliau. Er enghraifft, mae ysgolion yn rhanddeiliaid pwysig. Bydd cynorthwyo ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn sicrhau bod myfyrwyr yn deall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer technolegau newydd, a bod sectorau twf yn cyflawni nodau ac amcanion cynigion y strategaeth arloesi. Bydd cydweithio'n ganolog i lwyddiant y Strategaeth hon.

Mae gan y sector gwirfoddol gyfoeth o brofiad mewn deall anghenion unigolion sy'n eistedd y tu allan i lwybrau gyrfa traddodiadol. Mae gan lawer o fudiadau gwirfoddol ddulliau gweithredu hyblyg ac yn edrych ar yr unigolyn cyfan er mwyn teilwra pecyn cymorth a fydd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r sgiliau sydd eu hangen ar yr unigolyn, ond hefyd yn edrych ar rannau eraill o'i fywyd sy'n gallu ei rwystro rhag dysgu ac uwchsgilio. Gall mudiadau gwirfoddol arbed llawer o amser ac ymdrech i gyflogwyr a darparwyr eraill o ran paratoi unigolyn ar gyfer y cam nesaf i gael hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae mudiadau gwirfoddol yn deall y cymunedau y maen nhw'n gweithredu o'u mewn a demograffeg eu lleoliadau, ac mae ganddynt gysylltiadau da ag asiantaethau eraill, ysgolion, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Mae'r rhain i

gyd yn bwyntiau y dylai'r Strategaeth ei ystyried wrth iddi geisio datblygu set sgiliau'r genedl. Gall gwirfoddoli yn ei hun fod yn amhrisiadwy i helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd.

Weithiau, mae gwirfoddoli yn cyflwyno cyfle llai ffurfiol, am ddim, heb ymrwymiad i ailhyfforddi neu ddechrau ar y broses o ailhyfforddi. Gall CGGC ddarparu astudiaethau achos di-ri ar y pwnc hwn.

Rydym yn falch o weld bod dyhead i hybu ffordd arloesol o feddwl o oed cynnar drwy'r Cwricwlwm newydd. Gall y sector gwirfoddol helpu i gyflawni'r nod hwnnw drwy groesawu ac ysbrydoli pobl ifanc ar deithiau maes (e.e. Canolfan y Dechnoleg Amgen, Techniquest), a hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli sy'n canolbwyntio ar arloesedd. Yn ein barn ni, dylai'r strategaeth amlinellu cynllun i gydweithio â'r sector gwirfoddol i helpu i gyflawni'r nod hwn. Rydym yn gobeithio y bydd y sector yn cael ei gynnwys yn y 'rhaglen cyfoethogi STEM' newydd a nodir ar dudalen 21 y Strategaeth ddrafft.

Rhaid i'r Strategaeth gofio'r rôl y gall dysgu gydol oes ei chwarae mewn uwchsgilio unigolion, a gweithio gyda chymunedau a darparwyr addysg i oedolion, gan gynnwys y rheini o fewn y sector, i annog mwy o bobl i weld dysgu fel rhywbeth y gallant ei wneud drwy gydol eu hoes. Bydd uwchsgilio pobl yn hanfodol i lenwi'r bylchau presennol yn y gweithlu a achoswyd gan fwy o reoliadau ymfudo, ymadawiad y DU o'r UE, a'r argyfwng costau byw presennol. Rhaid i'r Strategaeth nodi sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

Noda'r Strategaeth, 'Byddwn yn sicrhau bod pawb, dim ots beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau, yn cael cyfle i gymryd rhan mewn arloesi a hynny drwy arloesi eu hunain, drwy ddylanwadu ar ba feysydd yr arloesir ynddynt, neu drwy elwa ar fuddion arloesi'. Bydd y sector gwirfoddol yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod cysylltiad rhwng llunwyr polisi a'r rheini y mae'r Strategaeth yn bwriadu eu cynorthwyo.

- tegwch cymdeithasol

Mae rheidrwydd moesol i arloesi fod er budd a ffyniant cymdeithasol holl ddinasyddion Cymru. Rydym yng nghanol argyfwng costau byw, sy'n debygol o niweidio cymunedau lleiafrifol yn anghymesur, fel y gwnaeth pandemig COVID-19. Rhaid i'r Strategaeth ystyried sut y gall fod o fudd i bawb a chreu cyfartaledd. Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun gweithredu LHDTC+ yn galw am hyn.

Nododd rhai ymatebwyr yma'r cynnydd parhaus mewn gweithio'n ddigidol, a'r perygl y bydd pobl hŷn yn cael eu hallgau'n ddigidol, ac yn ei chael hi'n anoddach cael mynediad at wasanaethau. Rhaid i'r Strategaeth Arloesi ystyried y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a sicrhau nad yw arloesi yn ymyleiddio unrhyw bobl hŷn.

- hinsawdd a'r amgylchedd

Mae gan y sector gwirfoddol lawer i'w gynnig yn y maes cynaliadwyedd. Mae llawer o fudiadau gwirfoddol wedi'u gyrru gan foeseg a'r angen parhaus i ddod o hyd i ffyrdd o leihau gwastraff ac ailddefnyddio adnoddau. Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gadw at yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Ymgysylltu Sero Net i gydweithio'n agos â'r sector er mwyn cyflawni ei chynlluniau ar gyfer economi gylchol, werdd.

Mae gan fudiadau gwirfoddol ran i'w chwarae mewn arloesi'r system drafnidiaeth. Gall y gwaith y mae elusennau yn ei wneud i hybu ymddygiadau iach, ynghyd â phresgripsiynu cymdeithasol gwirfoddol, helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â diffyg ymarfer corff ac annog pobl i newid eu dulliau teithio i rai llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae modelau rhannu ceir, fel clybiau ceir heb allyriadau, hefyd yn cael eu hwyluso fel arfer gan wirfoddolwyr ac yn fuddiol i'r amgylchedd.

Amlygodd Gofal a Thrwsio Cymru yr angen i gartrefi gael eu creu/ôl-osod i safon uchel er mwyn helpu i drechu'r newid yn yr hinsawdd, gan nodi'r potensial i ehangu cwmpas y tai sy'n cael eu cynnwys o dan strategaeth ddatgarboneiddio bresennol Llywodraeth Cymru. Gall hyn leihau allyriadau carbon, a lleihau'r gwres a gollir, gan felly leihau biliau ynni.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r ffyrdd y mae mudiadau gwirfoddol yn aml yn datblygu datrysiadau er mwyn darparu buddion lluosog ar gyfer pobl a chymdeithas.

Eraill

Dylai creu newid cymdeithasol fod wrth wraidd y Strategaeth Arloesi. Mae'r sector gwirfoddol yn hanfodol i'r nod hwn. Dylai'r Strategaeth geisio cynorthwyo'r sector i adeiladu capasiti ac integreiddio arloesi i mewn i ffordd y sector o weithio. Y ffaith amdani yw bod y sector yn rhedeg ar y capasiti mwyaf, ac wedi bod yn gwneud hynny drwy un argyfwng ar ôl y llall (llifogydd, COVID-19, costau byw...). Er mwyn iddo allu chwarae'r rôl allweddol y dylai ei chwarae o ran bodloni amcanion y Strategaeth Arloesi, bydd angen iddo gael ei adnoddi er mwyn caniatáu i'w arweinwyr gymryd cam yn ôl a chynllunio sut gall y sector, ar y cyd â'r Strategaeth, ddod hyd yn oed yn fwy arloesol nag ydyw eisoes.

Dylai'r strategaeth geisio edrych ar greu, caffael a datblygu adnoddau. Mae angen diogelu'r gweithgynhyrchu a'r diwydiant ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw prisiau uwch, costau adnoddau uwch a phrinder llafur yn niweidio'r allbwn y gall y meysydd hyn ei gynhyrchu, a diogelu'r staff sy'n gweithio yn y sectorau hyn. Mae creu economi gylchol sy'n gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu ynni adnewyddadwy, adnoddau a chaffael moesegol yn hanfodol, ac mae arloesi yn y maes hwn yn dyngedfennol.

Mae arloesedd tai hefyd yn hanfodol i ddiogelu yn erbyn heriau'r dyfodol a fydd, yn anochel, yn dechrau effeithio ar y boblogaeth. Mae pethau arloesol fel 'cartrefi gydol oes' wedi'u creu y gellir eu haddasu'n hawdd i anghenion y meddiannydd a'u newid

a'u diwygio yn ôl yr angen i feddianwyr neu denantiaid newydd. Mae'r cartrefi hyn yn galluogi'r perchennog neu feddiannydd i addasu ei gartref at ofynion anabledd, teuluoedd mwy o faint neu bobl hŷn. Mae'r arloesedd hyn yn dangos bod pobl yn meddwl ymlaen o ran anghenion y boblogaeth gyfan, waeth beth yw'r statws anabledd neu hunaniaethau croestoriadol eraill. Mae hyn yn allweddol i wneud prosiectau arloesi eraill yn llwyddiannus – sicrhau bod y boblogaeth yn cael ei hystyried yn gyntaf a phrosiectau yn cael eu hadeiladu o'i hamgylch, ac nid fel arall.

C2. Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor canolig (2-5 mlynedd) o ran:

- twf economaidd
- datblygu sgiliau
- tegwch cymdeithasol
- hinsawdd a'r amgylchedd
- eraill

Tystiolaeth bod y strategaeth wedi rhoi sylfaen gryfach yn ei lle ar gyfer arloesi a meithrin diwylliant o arloesi sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy ar draws sectorau. Dylai datblygu cynaliadwy gael eu beirniadu yn erbyn y diffiniadau a'r nodau a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Lefel uwch o arloesi yn cael ei defnyddio ar draws sectorau. Tystiolaeth bod diwylliant arloesi yn datblygu, gan gynnwys mwy o hyder ar draws sectorau bod pobl yn deall beth y mae'n ei olygu a bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r rhwydweithiau i greu datrysiadau arloesol.

Tystiolaeth bod y buddsoddiad yn y sylfeini a'r rhaglenni penodol hyn (sy'n gysylltiedig â chenadaethau) wedi arwain at ddatrysiadau sy'n cyflwyno gwell canlyniadau i bobl yn erbyn y lefelau buddsoddi na fyddai wedi bod yn bosibl (neu'n debygol) heb yr ymyraethau o dan y strategaeth arloesi.

C3. Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor hir (5+ mlynedd) o ran:

- twf economaidd
- datblygu sgiliau
- tegwch cymdeithasol
- hinsawdd a'r amgylchedd
- eraill

Tystiolaeth bod ymyraethau o dan y Strategaeth Arloesi wedi cefnogi arloesi sy'n gysylltiedig â gwelliannau yn erbyn ein Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Gallai hynny fod yn dystiolaeth o newid ar lefelau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol ond, gyda'i gilydd, yn rhywbeth a fyddai'n cynorthwyo symudiad cadarnhaol at lesiant cenedlaethol.

C4. Gwnaethon ni ddisgrifio rhai amcanion lefel uchel sy'n sail i'n gweledigaeth yn y strategaeth ddrafft. Rydyn ni'n cydnabod na all Cymru fod yn arweinydd arloesi byd-eang ym mhob maes. A oes cenhadaeth neu genadaethau penodol sy'n gysylltiedig â sectorau economaidd neu feysydd canlyniadau cymdeithasol y dylem yn eich barn chi ganolbwyntio gweithgarwch ac adnoddau arnynt?

Mae'r sector gwirfoddol yn amrywiol tu hwnt, yn cynnwys mwy na 40,000 o fudiadau. Mae'r rhan helaeth ohonynt yn gweithredu'n lleol, ac eraill yn rhai cenedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol a rhai'n enwau adnabyddus i bawb. Adlewyrchir hyn yn y meysydd gweithgarwch amrywiol, o gyngor ac eiriolaeth i chwaraeon. Mae llawer yn gweithio ar broblemau sy'n croestorri problemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel yr economi gylchol, ddigidol neu ddatrysiadau yn y gymuned. Mae adroddiad Dyfodol y Sector Gwirfoddol yn amlygu'r uchelgeisiau mawr sydd gan ein sector i greu Cymru well a'r ffyrdd amrywiol y gallai gyfrannu.

Un peth sy'n uno'r sector cyfan yw pobl yn dod at ei gilydd o'u gwirfodd i wneud gwahaniaeth ar faterion sydd o bwys iddynt. Mae ein sector yn gyffredinol yn cyfrannu at rymuso pobl a meithrin cysylltiadau dynol.

Pa bynnag genadaethau a ddewisir, bydd gan fudiadau gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae o ran eu cyflawni. Gallant gyrraedd unigolion a chymunedau llawr gwlad na all sectorau eraill eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae angen i'r sector allu cael mynediad at adnoddau a chymorth i chwarae ei rôl yn effeithiol. Mae angen ei weld fel partner cyfartal ochr yn ochr, a chan sectorau eraill wrth i'r Strategaeth ddechrau cael ei rhoi ar waith.

O ran canlyniadau cymdeithasol: mae Cymru ar y blaen o ran creu cysylltiadau ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi a phrif ffrydio gwerthoedd cymdeithasol o'u mewn gan ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith. Enghraifft o hyn yw sut mae Cymru yn geffyl blaen ar arloesi cynnar yn y maes masnach ryngwladol yn unol ag Amcan Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang o ran edrych ar fasnach ryngwladol ac asesu ei heffaith drwy lygaid llesiant. Dylai gweithredwyr yng Nghymru sy'n arwain ar y gwaith hwn, er enghraifft, drwy edrych ar sut gall masnach gefnogi Cymru Iachach, gael eu cynorthwyo i ddatblygu'r arloesedd hwn. Dylai'r Strategaeth Arloesi barhau i ddatblygu'r duedd hon a chefnogi'r gwaith o greu cysylltiadau pellach, er enghraifft, drwy wneud cymorth yn waith croestoriadol rhwng arloesi, hawliau dynol a chydraddoldeb, a rhwng meysydd fel nodau amgylcheddol a hawliau dynol.

C5: Pa effaith, gadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu bydd y Strategaeth Arloesi yn ei chael ar Gymru?

Gallai'r Strategaeth Arloesi gael effaith enfawr, a rhoi Cymru ar y blaen o ran cydnabyddiaeth ryngwladol yn yr un modd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft.

Er mwyn cael cymaint â phosibl o effaith, mae angen i'r strategaeth roi ymdeimlad llawer cryfach o bâm mae hyn mor bwysig nawr. Rydym yn byw mewn cyfnod y mae

llawer wedi'i ddisgrifio fel Oes yr Argyfwng, gydag argyfyngau lluosog yn digwydd ar yr un pryd, gan gynnwys yr argyfyngau costau byw ac economaidd, yr argyfyngau newid hinsawdd a natur a'r argyfwng yn ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw gweithredu ar ddull 'busnes fel arfer' yn opsiwn ac ni all ddatrys y problemau hyn. Mae angen dybryd i ni ddod ynghyd ar draws sectorau i ddatblygu datrysiadau arloesol sy'n diwallu anghenion pobl, nawr ac yn y cyfnod mwy hirdymor.

Mae angen ymrwymiad cryf gan bob partner er mwyn sicrhau bod y canlyniadau o'r arloesi yn cael effaith gadarnhaol hirdymor. Fel arall, rydym mewn perygl o arloesi heb gyfeiriad nac ystyriaeth.

Mae mudiadau gwirfoddol yn asedau enfawr i Gymru o ran cyfrannu at ddiwylliant arloesi newydd. Rydym yn cyflwyno syniadau, adnoddau a brwdfrydedd er mwyn gwella bywydau pobl (Gweler Dyfodol y Sector Gwirfoddol). Rydym yn croesawu'r datganiadau yn y strategaeth sy'n ymrwymo i strategaeth arloesi sy'n cofleidio arloesi cymdeithasol cymaint â thwf economaidd ac a fydd yn cynnwys y sector gwirfoddol ochr yn ochr â busnes a diwydiant. Mae hwn yn newid mawr a groesawir. Ond nid yw wedi'i adlewyrchu ar hyn o bryd ym manylion y strategaeth.

Mae rôl unigryw'r sector gwirfoddol yn yr ecosystem arloesi yn absennol o'r testun manwl gan fwyaf. Mae gan fudiadau gwirfoddol rôl bwysig yn y gwaith o gyfrannu at y prif amcanion (economi gryfach, mwy gwydn, cymorth i bobl sy'n agored i niwed ac ati) a mesurau (mentrau/swyddi newydd, sgiliau arloesi). Ond, yn gyffredinol, mae manylion y strategaeth yn canolbwyntio ar gyrff neu fusnesau yn y sector cyhoeddus gyda'r rhan fwyaf o'r sylw yn parhau i fod ar dwf economaidd mwy traddodiadol.

Mae cynnwys dinasyddion yn y gwaith o gydgynllunio a darparu gwasanaethau arloesol, ynghyd ag arloesi a arweinir gan y gymuned, yn rhan fawr o greu'r datrysiadau sydd eu hangen arnom. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn mewn deddfwriaeth, ond nid yw wedi'i adlewyrchu yn y strategaeth ddrafft. Byddai CGGC yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i fynd i'r afael â hyn. Mae enghreifftiau gwych o sut gellir gwneud hyn yn y gwaith rydym yn ei wneud gyda'r llywodraeth, cyrff iechyd a mudiadau gwirfoddol drwy Helplu Cymru.

Rhaid hefyd gwario'r cyllid sy'n ymwneud ag arloesi mewn modd call. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn strategaethau a phrosiectau arloesi, a rhaid cael sicrwydd bod y cyllid hwn yn cael ei wario er budd y gynulleidfa dan sylw. Gall ymyraethau llai o faint gyflwyno buddion enfawr – gyda rhywfaint o gostau, ond am lawer llai o gost na'r ymyraethau mawr o'r brig i lawr yn y strategaeth ddrafft bresennol (e.e. Trawsnewid a arweinir gan y gymuned).

Bydd tryloywder ac atebolrwydd wrth fonitro'r Strategaeth yn bwysig, gan y bydd yn ein galluogi i ddysgu beth sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol yn ogystal â dwyn y llywodraeth i gyfrif ar wario arian cyhoeddus. Bydd hyn yn cefnogi arloesedd.

Byddai CGGC yn croesawu gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid ar y pwyntiau uchod.

C6: Pa gamau gweithredu newydd sydd angen deillio o'r Strategaeth Arloesi?

Byddai CGGC yn hoffi gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i ddarparu cymorth ymarferol er mwyn adeiladu'r sgiliau, y capasiti a'r rhwydweithiau i gynyddu arloesedd ar draws y sector gwirfoddol. Hoffem weld y pwyslais hwn ar gymorth ymarferol er mwyn adeiladu'r sylfeini ar gyfer arloesi yn y Strategaeth.

Byddai CGGC yn hoffi gweld y strategaeth yn cefnogi labordy arloesi ar gyfer y sector gwirfoddol, lle gall mudiadau gyflwyno'r heriau go iawn a wynebir gan eu buddiolwyr a gweithio gyda phobl eraill i ddatblygu datrysiadau arloesol yn gyflym. Nid oes angen i hyn fod yn rhywbeth a gaiff ei adeiladu o ddim na'n rhywbeth a fydd yn costio llawer. Gallai ychydig o adnoddau ychwanegol gysylltu'r sector â hybiau arloesi presennol, fel Spark yn well, gyda rhaglen benodol i alluogi arloesedd gan fudiad gwirfoddol.

Nid oes gan y mwyafrif o fudiadau gwirfoddol yr amser na'r capasiti i feddwl am arloesi. Mae CGGC yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r diffyg capasiti ac amser hwn er mwyn datblygu'r sector yn gyffredinol. Mae angen rhaglen benodol i adeiladu sgiliau, capasiti a rhwydweithiau sy'n ymwneud ag arloesi. Ond eto, nid oes angen i hwn fod yn rhywbeth annibynnol a gallai adeiladu ar raglenni ehangach a chael eu hintegreiddio o'u mewn.

Byddai hwb arloesi ar gyfer y sector gwirfoddol hefyd yn cryfhau'r dystiolaeth o ran pam dylai mudiadau fabwysiadu dulliau arloesol a rôl mudiadau gwirfoddol mewn ecosystem arloesi. Byddai cynyddu dealltwriaeth a datblygu rhwydweithiau o fudiadau sydd â diddordeb mewn arloesi, yn helpu i gysylltu mudiadau gwirfoddol â'r seilwaith arloesi ehangach. Byddai'n eu galluogi i elwa ar nodweddion cyffredin arloesi yng Nghymru ac i gyfrannu tuag atynt.

Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael ag absenoldeb cymharol y sector gwirfoddol drwy'r holl Strategaeth. Mae hyn yn debygol o fod yn rhan o etifeddiaeth y strategaeth flaenorol. Mae'r sector gwirfoddol yn gartref i newidwyr ac arloeswyr brwdfrydig. Mae'n agos at gymunedau ac yn hyblyg. Ond er mwyn symud tuag at arloesi cymdeithasol a chyfranogiad traws-sector, bydd angen camau gweithredu penodol o fewn cyfnod cynnar y strategaeth.

Byddai CGGC yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i drafod ymhellach.

Pe bai modd mapio'r capasiti presennol ar gyfer arloesi yng Nghymru a gosod cynlluniau ar gyfer gwella, ochr yn ochr â chyfres o gamau gweithredu penodol i hybu arloesi mewn modd cymdeithasol, byddai hynny'n adnodd amhrisiadwy.

C7: Pa agweddau ar y Strategaeth Arloesi dylai aros yr un fath?

Mae'n anodd ateb hyn. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffocws ar ddatblygu sgiliau, tegwch a'r newid yn yr hinsawdd. Bydd monitro'r strategaeth yn allweddol i bennu pa elfennau sy'n llwyddiannus ac angen eu cadw fel ag y maent.

C8: Beth yw'r prif heriau a rhwystrau mewn cysylltiad ag arloesi yng Nghymru? Beth sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn?

Mae'r diffyg cydnabyddiaeth o arloesedd y sector gwirfoddol a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud yn rhwystr yn ei hun. Bu'n rhaid i'r sector, er enghraifft, arloesi ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a gwasanaethau am ddim ar bwynt defnyddio drwy gydol y pandemig, yn aml yn llenwi bylchau a adawyd gan sectorau eraill wrth iddynt symud ffocws. Fodd bynnag, noda partneriaid y sector eu bod yn teimlo nad yw hyn wedi'i werthfawrogi ddigon. Mae hyn yn creu rhwystr yn y sector gwirfoddol, oherwydd gall ddigalonni rhywun i weithio mewn sector sy'n arloesi ac yn addasu eu ffyrdd o weithio'n barhaus i gyd-fynd ag anghenion byth-newidiol cleientiaid, ond nad yw'n cael ei ystyried yn yr un modd â sectorau eraill. Mae angen mynd ati o ddifrif i gefnogi a diogelu'r sector gwirfoddol, i arloesedd y sectorau hyn gael mwy o barch, a rhai meysydd gael eu gweld fel arfer gorau dros Gymru. Mae angen mwy o weithgarwch arnom i adrodd stori arloesi'r sector gwirfoddol (rhywbeth sy'n gysylltiedig â chynnig ar gyfer y rhaglen benodol uchod).

Ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei gyflwyno i fudiadau a busnesau mwy o faint. Gall hyn olygu bod cyfleoedd i arloesi a bod yn greadigol ymhlith elusennau bach yn cael eu colli, gan gyfyngu ar y gallu i arloesi a datblygu ein gwasanaethau mwy unigryw ac arbenigol. Nid oes llawer o ddealltwriaeth o sut y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfeirio er mwyn rhyddhau'r cyfleoedd arloesi i fudiadau llai. Mae cyfleoedd sylweddol i fudiadau ac elusennau llai gael adenillion o fuddsoddi, gyda chylchau gwaith llai, haws eu trafod a chanlyniadau penodol y gellir eu cyflawni. Rhaid hwyluso mudiadau llai i ddod yn rhan bwysig o'r economi arloesi.

Roedd newid y ffordd y mae cyllidwyr yn targedu ac yn monitro cyllid yn un o brif ofynion ein rhaglen ddiweddar ar arloesi a arweinir gan y gymuned. Mae gan CGGC ddegawdau o brofiad o gael cyllid allan i fudiadau llai sy'n gallu cyfrannu.

Mae mynediad at gyllid priodol yn rhwystr arall. Gallai hyn fod o ganlyniad i ffrydiau cyllido priodol i fudiadau penodol, neu'n syml, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael. Yr un yw'r hanes i fentrau cymdeithasol, o'u cymharu â mudiadau mwy 'traddodiadol' yn y sector.

Dengys gwaith ymchwil CGGC mai dim ond pedwar y cant o fusnesau cymdeithasol gafodd cyllid cyfunol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n awgrymu bod lle i gynyddu'r math hwn o gynnig fel dewis amgen i fusnesau sy'n awyddus i gael cyllid grant. Mae hybu arloesi drwy ffrydiau cyllido, a symud i ffwrdd o ddiwylliant sy'n dibynnu ar gyllid grant yn hytrach na chyllid ad-daladwy, yn gyfle y dylid edrych arno. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau bod gan y sector busnesau cymdeithasol y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i lwyddo i gael y cyllid hwn a datblygu eu modelau busnes.

Dengys yr ymchwil fod awydd cryf o fewn y sector mentrau cymdeithasol i wella eu cydberthynas â'r sector cyhoeddus ac i ddatblygu'r farchnad honno. Fodd bynnag, caiff unrhyw obaith o wneud hynny ei lesteirio gan allu busnesau yn y maes hwnnw - cafodd caffael ei nodi fel y maes lleiaf hyddysg yn yr arolwg, ond cafodd hefyd ei

amlygu fel yr un â'r prif anghenion cymorth. Awgryma'r canfyddiadau bod digon o ddyhead i lunwyr polisi ddefnyddio caffael i gefnogi twf y sector mentrau cymdeithasol ac i hybu arloesedd cymdeithasol o'i mewn.

Mae rhannu a hyrwyddo syniadau, arferion da a llwyddiannau ar draws sectorau yn rhywbeth sydd wastad wedi bod yn anodd. Mae angen gwneud hyn yn fwy effeithiol er mwyn hybu arferion arloesol. Mae angen i ni fod yn fwy cysurus â siarad am fethiannau a dysgu oddi wrthynt. Byddai llwybrau i nodweddion cyffredin arloesi Cymru yn helpu i ddatblygu'r arferion traws-sector hynny sy'n canolbwyntio ar heriau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r diffyg capasiti ac adnoddau o fewn y sector gwirfoddol i gael yr amser i gymryd cam yn ôl a meddwl a chynllunio yn rhwystr mawr i arloesi. Byddai cynnwys gweithgarwch rhaglen penodol i gefnogi hyn, gan gysylltu â mentrau presennol ar ddatblygu sector a sgiliau arloesi, yn helpu.

Nododd un ymatebwr y gall cyfleoedd i arloesi drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn rhwystr ar adegau, gan fod llai o gyfleoedd am gyllid ac arloesi Cymraeg iaith gyntaf gan ffynonellau y tu allan i Gymru. Yn aml, bydd yn ddeniadol i nifer bychan o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, a'r arloesi yn llai trosglwyddadwy ar raddfa fyd-eang heb ei gyfieithu'n llawn i'r Saesneg. Mae rhai prosiectau a chynlluniau arloesi rhagorol yn cael eu gwneud mewn gwledydd tebyg i Gymru, fel ledled Llychlyn. Mae cyfleoedd i ni yng Nghymru i edrych ar y profiadau a'r prosiectau hyn gan wledydd eraill a dysgu am yr hyn sy'n bosibl, a'r hyn sy'n fuddiol i Gymru o wlad debyg i ein un ni.

C9. Nod y Strategaeth Arloesi yw gwneud Cymru'n fwy ffyniannus drwy gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd, creu swyddi, gwario yn economi Cymru, a chynhyrchiant. Ecosystem lle mae pawb yn gyfrifol am arloesi.
a. Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniad hwn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Strategaeth yn cydnabod y gwahaniaeth cynhenid rhwng diffiniad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol o ffyniant, sy'n canolbwyntio'n fawr ar fyw o fewn ffiniau cynaliadwyedd, a'r diffiniad mwy safonol o dwf economaidd, sy'n tueddu i ganolbwyntio llawer llai ar gynaliadwyedd. Mae'n hanfodol bod y Strategaeth yn canolbwyntio ar fodel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn gosod canlyniadau clir ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd a gwydnwch.

Hoffem weld mwy o fanylion ar sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu hannog i ymhél ag arloesi sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol. Hoffem weld yr adnoddau, cyllid a'r gweithgareddau caffael yn cael eu mapio'n drwyadl fel y gellir eu defnyddio i annog, hwyluso a hybu arloesi cymdeithasol.

b. Pa effaith, gadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu gall arloesi ei chael ar helpu i wella rhagolygon a llesiant economaidd pobl Cymru?

Gall arloesedd sector gwirfoddol chwarae rôl enfawr mewn cynyddu ffyniant economaidd, ond mae angen iddo gael ei adnoddi a'i hwyluso i chwarae ei rhan lawn yn yr ecosystem arloesi.

Mae'r Strategaeth yn siarad am 'ecosystem lle mae pawb yn gyfrifol am arloesi', ond ychydig o eglurder a roddir ynghylch a yw hyn wedi'i gyfeirio at gwmnïau a chorfforaethau, neu at bobl unigol Cymru. Byddai hyn yn cyflwyno dau gyfle gwahanol iawn, ac yn arwain at ganlyniadau gwahanol yn dibynnu ar bwy yw'r gynulleidfa darged pan gyfeirir at 'bawb'. Mae angen egluro a yw 'pawb', mewn gwirionedd, yn golygu pawb, ac os felly, sut gall pob unigolyn yn y wlad gael ei gefnogi i chwarae rhan. Mae gan gyfranogiad dinasyddion, cyd-gynhyrchu datrysiadau a newid a arweinir gan y gymuned rôl bwerus i'w chwarae. Mae gan CGGC a'n haelodau wybodaeth arbenigol am hyn y byddem yn fwy na bodlon ei rhannu.

C10. Nod y Strategaeth yw gwneud Cymru'n fwy cydnerth, gan anelu at wella amgylchedd naturiol ac iach, mabwysiadu egwyddorion yr economi gylchol, a chynyddu ein capasiti a'n gallu wrth addasu i newid.
Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

Fel y nodwyd ynghynt, rhaid i wydnwch ddod cyn twf economaidd, ac nid ydym yn credu bod hyn yn cael ei adlewyrchu ddigon yn y Strategaeth.

Mae digidol yn adnodd hanfodol ar gyfer arloesi (ond nid yr unig un, yn bendant). Fodd bynnag, mae problemau parhaus yn parhau ynghylch allgau digidol, gan gynnwys diffyg band eang addas mewn ardaloedd gwledig. Ni fydd y rheini a effeithir gan allgau digidol yn gallu cymryd rhan lawn yn y strategaeth arloesi tan fydd y problemau hyn wedi'u datrys.

C11. Mae Cymru fwy cyfartal yn un o amcanion y Strategaeth Arloesi. Mae'n cynnig ecosystem arloesi dryloyw sy'n sicrhau cynhwysiant yn yr holl weithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, a dosbarthiad tecach o fuddsoddiad lle mae pob rhanbarth yng Nghymru yn elwa ar ragor o weithgarwch arloesi.
a. Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

Rydym yn falch o weld bod y Strategaeth Arloesi yn cydnabod yr angen a'r pwysigrwydd i annog, cefnogi ac ymgysylltu â phobl o bob demograffeg, drwy greu ecosystem arloesi dryloyw sy'n sicrhau cynwysoldeb. Y perygl, fodd bynnag, yw i'r arloesi gyflwyno breintiau i'r rheini sydd eisoes yn freintiedig (a gydnabyddir yn y Strategaeth drwy gyfeirio at fanteision y 'triongl aur' yn Lloegr). Nodir hyn, ond ni eir i'r afael ag ef o ddifrif. Yn ymarferol, mae pobl dlawd ar yr ymylon yn aml - drwy reidrwydd - yn llawer mwy arloesol na'r rhai mwy cysurus eu byd. Mae gan y rhai cymharol gyfoethog lawer i'w dysgu am arloesi gan grwpiau a gaiff eu hanwybyddu'n draddodiadol.

Mae gan y sector gwirfoddol rôl enfawr i'w chwarae mewn agweddau o'r strategaeth o ran cynhyrchiant a chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth. Mae'r rhain yn arbennig o hanfodol gan fod y Strategaeth wedi'i gosod mewn cyd-destun lle mae'r

cyllid o'r UE a arferai gefnogi'r amcanion hyn yn dod i ben, sy'n debygol o gyflwyno effeithiau amrywiol o un rhanbarth i'r llall. Dylai'r sector hefyd gael ei gefnogi a'i gynnwys mewn agweddau o'r strategaeth a allai dargedu cyfle cyfartal i bobl ifanc a phobl o gefndiroedd difreintiedig drwy hybu cyfleoedd i bawb symud a dysgu ar draws ffiniau.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn amlygu bod yn rhaid i flaenoriaethau sgiliau a chyflogadwyedd fod yn seiliedig ar y Strategaeth Arloesi, gan hefyd gyfeirio ar Gynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Un maes gweithredu allweddol sydd wedi'i nodi yn y Cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd drwy gefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig sy'n bellaf o'r farchnad lafur. Mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae yma, yn enwedig yng nghyd-destun cynwysoldeb a dosbarthu buddsoddiadau'n decach, gan mai mudiadau'r sector gwirfoddol, yn aml, sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi'r bobl a'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru na all darpariaeth prif ffrwd eu cyrraedd yn aml. Mae angen cydlynu unrhyw gynlluniau yn y gofod hwn a chynnwys y sector, ynghyd ag alinio â chynlluniau buddsoddi rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF).

Gallai darpariaeth yn ôl rhanbarth yr UKSPF gyflwyno peryglon penodol, e.e. y perygl o anghysondeb wrth weithredu ar draws y rhanbarthau, a allai arwain mudiadau i orfod cydymffurfio â rheolau a gweithdrefnau gwahanol. Mae hefyd perygl o anghysondeb wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel leol a rhanbarthol, e.e. mae gan rai o fudiadau'r sector gwirfoddol gydberthynas weithio gynhyrchiol ag awdurdodau lleol ac maen nhw'n cydweithio, ac eraill yn ymgysylltu llai ac yn gweithio'n fwy ar wahân. Trwy roi strwythur llywodraethu eglur ar waith, sy'n cynnwys cynrychiolaeth draws-sector eang o bob rhanbarth, gellid sicrhau tryloywder a sicrhau bod cyfleoedd yn cyd-fynd â'i gilydd mewn modd strategol. Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl yn hyn o beth a gweithio gyda Llywodraeth y DU a phob rhanddeiliad arall yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau a chyfleoedd. Fodd bynnag, dim ond tan 2025 mae'r UKSPF wedi'i chyllido, ac mae ansicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl hynny. Gallai'r Strategaeth ystyried y bylchau a'r adnoddau llai a allai fodoli yn y dyfodol, a nodi sut gellid mynd i'r afael â hyn.

Mae gan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus rôl i'w chwarae. Nod y Bil hwn yw gwneud gwaith yn decach yng Nghymru. Dylid gwneud cysylltiadau â nod y Bil am arferion caffael tecach, mwy cynaliadwy. Dylai arferion o'r fath fod yn elfen allweddol o wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru am arloesi.

Hoffem amlygu'r rhaglen Ecwiti, a weinyddir gan bartneriaeth rhwng Cwmnïau Cymdeithasol Cymru ac UnLtd, fel enghraifft ddiweddar gadarnhaol o gyllid cynhwysol, arloesol. Mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn tri o ymrwymiadau allweddol y 'Rhaglen Lywodraethu'; 1. Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, gan gynnwys lleihau'r bwlch mewn cyflogaeth pobl anabl; 2. Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math (Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru); 3. Sicrhau bod grantiau yn wrth-hiliol, defnyddio grantiau a chaffael cyhoeddus i wella arweinyddiaeth a sicrhau bod cynrychiolaeth ac arweinyddiaeth lleiafrifoedd ethnig gwrth-hiliol yng Nghymru yn cael eu cefnogi. Dros gyfnod o naw mis, hyd yma, mae'r gronfa wedi dyfarnu cyllid dechrau menter neu dyfu menter i gyfanswm o saith

unigolyn sy'n wynebu heriau cymdeithasol o'r ddemograffeg ganlynol: anabledd (2), niwroamrywiol (1), lleiafrif ethnig (2),LHDTCRhA+ (1), benyw (2) gwryw (5) ac mae ar y trywydd iawn i gefnogi 12 o entrepreneuriaid cymdeithasol erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

b. Ydych chi'n credu bod gan y strategaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar bob rhanbarth yng Nghymru? Os nad ydych chi, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?

Gellid cryfhau hyn yn y strategaeth drwy

- gynnwys ymrwymiadau i gryfhau galluoedd craidd mewn perthynas ag arloesi ar draws sectorau
- cynnwys dulliau gweithredu seiliedig ar leoedd

Mae'r pwynt bwled cyntaf yn gysylltiedig â'n cynnig i gael rhaglen i adeiladu sgiliau, gallu a rhwydweithiau'r sector gwirfoddol o ran arloesi.

Gallai'r ail gynnwys mentrau seiliedig ar le mewn ymateb i bob cenhadaeth. Byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â'r Polisi Cymunedau sy'n dod i'r golwg gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes digon o fanylder yn y Strategaeth ddrafft ynghylch cymunedau seiliedig ar leoedd a'r rôl y gallant ei chwarae mewn darparu arloesedd. Mae mentrau seiliedig ar leoedd yn mynd y tu hwnt i fargeinion dinesig a thwf a fforymau economaidd rhanbarthol. Eto, mae pwysleisio'r rhain yn y strategaeth yn debygol o fod yn etifeddiaeth o'r strategaeth flaenorol. Hoffem weld mwy ar yr economi sylfaenol ac effaith y natur wledig.

O ran addysg: Os ydym am fynd i'r afael ag arloesi drwy'r sector addysg trydyddol, yna mae cyfleoedd a chyllid arloesi yn cael eu targedu'n aml at sefydliadau mwy ffyniannus sydd wedi'u lleoli yn ne Cymru. Golyga hyn y bydd arloesi yn ffynnu yn y Brifddinas ac ardaloedd cyfoethocach Cymru, ac yn ffynnu llai mewn ardaloedd eraill. Gall hyn arwain pobl i feddwl bod arloesi'n llwyddiannus yn yr ardaloedd hyn, felly caiff mwy o gyllid ei gyfeirio atynt, ac mae hyn yn creu system gylchol sy'n digalonni sefydliadau ac ardaloedd eraill yng Nghymru rhag cymryd rhan.

Er bod arloesi yn ffynnu mewn ardaloedd â phoblogaethau uwch a mwy o gyfleoedd, mae angen dealltwriaeth benodol o fewn y Strategaeth fod arloesi hefyd yn gallu creu cyfleoedd pellach i ardaloedd nad ydynt mor gysylltiedig na pharod. Mae llawer o ardaloedd gwledig ac ardaloedd â phoblogaeth lai yn ofni eu bod yn cael eu gadael ar ôl. Trwy gynnig cyfleoedd ym mhob rhanbarth, neu fuddsoddi mewn prosiectau a chynlluniau a fydd yn cyflwyno'r un buddion uniongyrchol i bob rhanbarth yng Nghymru, bydd twf mewn cyfleoedd i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd rhanbarthol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Gan fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fyw mewn lleoliadau mwy gwledig neu mewn pentrefi bychan nad ydynt yn cael llawer o

gyfleoedd i arloesi, mae pryder y bydd cyfle'r ardal honno am dwf ac adfywio yn marw gyda thrigolion yr ardaloedd hyn.

c. A oes anghydraddoldebau yn y sector Ymchwil, Datblygu ac Arloesi nad yw'r strategaeth ddrafft wedi ymdrin â nhw? Sut gallai'r strategaeth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn?

d. A oes unrhyw grwpiau a dangynrychiolir nad yw'r strategaeth wedi'u nodi fel grwpiau blaenoriaeth?

Mae'r Strategaeth yn nodi cymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, menywod, pobl anabl a'r rheini â sgiliau isel, ond dylai fynd ymhellach ac ymgysylltu â chymunedau lesbiaidd, hoyw a deurywiol a'r gymuned drawsryweddol a'r gymuned nad yw'n cydymffurfio o ran rhywedd. Mae Sipsiwn a Theithwyr (y gall cymunedau sefydlog ddysgu llawer oddi wrthynt am arloesi, addasu a dyfeisgarwch) a chymunedau ieithoedd lleiafrifol (a nodwyd yn yr adran ar ddigidol, ond nid yn unrhyw le arall) sy'n siarad ieithoedd gwahanol, yn enwedig ieithoedd cynhenid, gyfoeth o wybodaeth a all arwain at arloesi ar sail dealltwriaeth draddodiadol.

e. Yng nghyd-destun agenda codi'r gwastad y DU, sut gallwn ni ystyried amrywiaeth ranbarthol yng Nghymru ymhellach wrth ddatblygu'r strategaeth hon?

Bydd angen i'r Strategaeth gyd-fynd ag agenda codi'r gwastad y DU er mwyn gwneud llawn ddefnydd o adnoddau prin. Mae hyn yn golygu cael pob sector i ymhél â hi a manteisio ar yr adnoddau y gallai ei chyflwyno i Gymru.

C12. Mae'r Strategaeth Arloesi'n bwriadu hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy brosesau gwneud penderfyniadau sy'n ystyried effaith ein gweithgareddau arloesi ar lesiant byd-eang, yn ogystal â dull cydweithredol o weithio mewn partneriaeth ar lefel ryngwladol i rannu gwybodaeth a sgiliau, ac i gyflawni prosiectau â phwrpas cymdeithasol.
Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

Yn gysylltiedig â'r sylwadau yn y Strategaeth ddrafft ar Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yw pwysigrwydd partneriaethau trawsffiniol a symudedd wrth feithrin a rhannu arloesedd. Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd y partneriaethau hyn a dylai barhau i gefnogi'r ymdrechion i'w hasesu a'u datblygu. Mae rhai enghreifftiau y mae ein sector yn gysylltiedig â nhw yn cynnwys SCoRE Cymru a Taith.

Mae'r Strategaeth yn trafod yr angen i feithrin diwylliant o arloesi gan ddechrau trwy ddatblygu plant a phobl ifanc drwy'r cwricwlwm. Mae nifer o bethau o ddiddordeb i'r sector gwirfoddol yma, gan gynnwys sicrhau y dylai'r Strategaeth bwysleisio'r angen am addysg ac ymwybyddiaeth o ran cydraddoldeb a hawliau dynol a amlinellir gan

Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn bwysig bod y Strategaeth yn mynd ati mewn modd holistaidd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgol. Mae hyn yn croestorri â gwirfoddoli trawsffiniol a chyfleoedd addysg trawsffiniol, fel Taith.

Er ei bod yn braf gweld buddsoddiadau economi cylchol a sylfaenol yn cael eu hamlygu, hoffem weld hyn yn cael eu cyfuno o dan thema economi llesiant ehangach. Byddai hyn, fel y nodwyd gan WCIA, yn helpu i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw economi sylfaenol o reidrwydd yn fwy cynaliadwy/cyfrifol ar lefel fyd-eang – mae angen ei chysylltu ag ystyriaethau amgylcheddol i wneud hyn. Mae cyfrifoldeb byd-eang yn gofyn am gyfrifoldeb llwyr o'r gadwyn gyflenwi; byddai hyn yn arloesol iawn, yn gofyn am sgiliau newydd ac uwch, ac yn gallu gwneud defnydd da iawn o'n sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn ogystal â'r lliaws o gysylltiadau rhyngwladol sydd gan bobl yng Nghymru, drwy gymunedau ar wasgar, Cymru-Affrica, gefeillio trefi ac ati. Mae'r holl drefniadau cymdeithas sifil hyn yn hyrwyddo arloesedd.

Yn yr adran 'cyfrifol ar lefel fyd-eang', mae'n dda gweld cydnabyddiaeth bod angen i bob dimensiwn o gadwynau cyflenwi hirach fod yn foesegol. Hoffem weld datgoedwigo, masnach deg, hawliau gweithwyr a chaethwasiaeth yr oes hon yn cael eu crybwyll yn fwy eglur.

C13. Un o nodau'r strategaeth arfaethedig yw creu cymunedau cydlynus a fydd yn sicrhau rhagor o gydweithio traws-sector, gwell cysylltedd mewn cymunedau a thechnolegau digidol yn cael eu mabwysiadu, yn ogystal â chysoni ein gweithgareddau er mwyn cyflawni dros ein cymunedau yng Nghymru.
Ydych chi'n credu y bydd y Strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, sut gallwn ni gyflawni hyn?

Mae'r rhan hon o'r strategaeth yn wan ar hyn o bryd. Mae'r adran ar gymunedau cydlynus yn canolbwyntio'n bennaf ar y strategaeth ddigidol i Gymru, a chysylltedd digidol. Er bod hyn yn bwysig, dim ond rhan fechan o'r hyn a olygir wrth gymunedau cydlynus yw hyn.

Mae tystiolaeth o bethau arloesol (a sut i greu datrysiadau arloesol) sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol ac o'r hyn sy'n gweithio'n fwy effeithiol nag eraill. Mae'r Tîm Deall Ymddygiad wedi gweithio'n flaenorol gyda phartneriaid yn Sir Fynwy ar unigrwydd ac ynysu, sy'n rhan bwysig o gymunedau cysylltiedig – ac yn her fawr i'n cymdeithas. Gallai hyn fod yn genhadaeth yn ei hun ac yn faes lle gall mudiadau gwirfoddol – a chydweithrediadau traws-sector – ddefnyddio dulliau arloesi i hybu canlyniadau gwell.

Nid yw'r Strategaeth ddrafft yn adlewyrchu rôl na gwerth y sector gwirfoddol i'n cymunedau, ar hyd a lled Cymru. Mae'r amrywiaeth o fudiadau gwirfoddol a'r

gwahanol fathau o weithredu gwirfoddol, yn gwneud cyfraniad enfawr i wella cysylltiadau a chydberthnasau cymdeithasol.

O fewn digidol, mae rhaglenni fel Newid yn gwella gallu mudiadau i ddefnyddio digidol ar gyfer arloesi. Eto, mae angen i fudiadau gwirfoddol allu cael eu cynnwys mewn seilwaith fel y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol er mwyn cynyddu sgiliau, capasiti a rhwydweithiau.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, bydd angen i ni weithio gyda chymunedau er mwyn gallu mabwysiadu pethau arloesol yn gysurus. Bydd llawer o'r hyn y sonnir amdano yn gofyn am gefnogaeth gymunedol i lwyddo, er enghraifft, mesurau newid hinsawdd, teithio llesol ac ymyriadau iechyd cynnar. Byddai cydlyniant cymunedol yn ffordd dda o weld y cysylltiad rhwng ymchwil, diwydiant a phobl, a sut y mae angen iddynt weithio gyda'i gilydd i arloesi. Bydd cydlyniant cymunedol hefyd yn chwarae rôl allweddol mewn datblygu economïau cylchol. Ni ddylai'r un o'r pethau hyn gostio llawer, a bydd unrhyw fuddsoddiad, a mwy, yn cael ei ddychwelyd o ran y gwahaniaeth y byddant yn ei gwneud.

Gall mentrau cymdeithasol chwarae rhan arbennig o allweddol mewn creu cymunedau cydlynus oherwydd eu dosbarthiad ar hyd a lled y wlad. Yn ôl ymarferiad mapio gan Busnes Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn 2021, amcangyfrifir fod y sector menter gymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys hyd at 2,309 o fusnesau a hyd at 56,000 o gyflogeion, sy'n cynhyrchu £3.1-3.8 biliwn o werth. Mae llawer o'r mentrau cymdeithasol yng Nghymoedd tlotaf de Cymru, ac maen nhw'n fwy tebygol i weithredu mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r sector yn cynnwys grŵp craidd o fentrau cymdeithasol sefydledig, a'r rhain yn cael eu hategu gan grŵp cynyddol o fusnesau newydd. Mae'r ffaith bod mentrau cymdeithasol wedi'u hangori yn eu cymunedau, ac yn aml, gyda chanlyniadau cymdeithasol penodol wrth wraidd eu model busnes, yn golygu bod yn rhaid iddynt chwarae rôl bwysig mewn adeiladu Cymru o gymunedau cydlynus.

Er mwyn sicrhau bod amcanion buddsoddi a pholisi mor llwyddiannus â phosibl, mae'n rhaid iddynt ddefnyddio ac adeiladu ar grwpiau, rhwydweithiau a mentrau cymdeithasol presennol sydd eisoes wedi'u hymwreiddio mewn cymunedau, a defnyddio eu harbenigedd a'u profiad o adnabod a datrys problemau cymdeithasol. Canfu adroddiad darganfod ar weithio'n ddigidol yn ystod y pandemig *(A Just and Equal Transition to Net Zero* (Parken ac eraill, 2022, i ddod)) fod ymchwydd enfawr yn nifer y mudiadau sector gwirfoddol sy'n defnyddio digidol. Canfu'r adroddiad nad oes digon o gyllid ar gyfer arloesi digidol yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr a'r Alban. Dylid datrys hyn, gan fod potensial clir ar gyfer arloesi digidol a allai gael effaith bositif enfawr ar fywydau pobl. Byddai seilwaith gymorth a gyd-gynhyrchir, sy'n nodi ac yn hwyluso arferion da ar gyfer pob math o fudiadau trydydd sector, yn fuddiol tu hwnt.

C14. Mae'r Strategaeth Arloesi newydd yn bwriadu sicrhau Cymru Iachach drwy ecosystem arloesi sy'n fwy cydlynol ac sydd wedi'i halinio'n well, ac sy'n targedu

ffyrdd newydd a gwahanol o weithio, yn cefnogi strategaethau ymadfer ar ôl y pandemig ac sy'n galluogi i ni fabwysiadu fwy o arloesedd.

Yn sail i hyn y bydd system Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cydweithio ar draws diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector i sicrhau gwell gwerth gofal iechyd drwy ddatblygu, rhannu, caffael a mabwysiadu arferion a thechnoleg arloesol.

Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol y mae angen eu cynnwys?

Rydym yn croesawu'r uchelgais yn y Strategaeth ddrafft. Eto, mae gan y sector gwirfoddol rôl fwy o faint i'w chwarae yn yr ecosystem arloesi sydd ei hangen i gefnogi hyn na'r hyn a amlinellwyd yn y drafft presennol.

Mae CGGC wedi bod yn rhan o raglenni gwahanol yn cefnogi arloesedd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd a gofal yn ein galluogi ni i weithio ar draws sectorau i gyflwyno gwelliannau arloesol i bobl. Mae hyn i gyd yn rhan o'r 'ecosystem' iechyd a gofal ond y tu hwnt i'r sefydliadau yr ydym yn aml yn eu hystyried fel 'y system'.

Un enghraifft yw presgripsiynu cymdeithasol, un o ymgyrchoedd mwyaf arloesol y blynyddoedd diwethaf. Dylai fod yn ganolog i arloesi yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gall helpu gydag iechyd cyffredinol, ffitrwydd, cysylltiadau cymdeithasol a llesiant fel ffurf o ymyrraeth gynnar fel y flaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd o ran cefnogi pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, ynghyd â chodi lefel y sgiliau a'r cymwysterau, a hefyd symudedd y gweithlu. Mae'r sector gwirfoddol yn allweddol i sicrhau bod presgripsiynu cymdeithasol yn llwyddiannus, a rhaid i'r cymorth barhau, gyda mwy o gymorth o bosibl, er mwyn caniatáu iddo barhau i wneud hynny.

Mae CGGC hefyd wedi cefnogi ymatebion arloesol drwy Helplu Cymru, partneriaeth ag CGGC, Llywodraeth Cymru a Helplu (Saesneg yn unig). Mae hyn yn galluogi gwirfoddoli mwy effeithiol o fewn y sector iechyd a gofal, ac yn creu datrysiadau gofal ar y cyd rhwng defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr. Gall Helplu ymddwyn fel model a phwynt cyfeirio rhagorol ar gyfer arloesi yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae CGGC hefyd yn gweithio gyda Macmillan a WISERD ar brosiect a fydd yn defnyddio technegau arloesi gyda'r nod o wella mynediad yn y gymuned at wasanaethau cymorth canser.

Un risg i'r strategaeth yw bod ein gwasanaethau iechyd a gofal – pa bynnag sector y maen nhw ynddo – o dan gymaint o bwysau fel eu bod yn cael anhawster ateb y galw presennol. Bydd darbwyllo mudiadau a gweithwyr proffesiynol sydd eisoes o dan bwysau mai nawr yw'r amser i ganolbwyntio ar arloesi yn heriol.

Mae angen gofod a chapasiti ar bobl i gymryd cam yn ôl o'u pwysau presennol i feddwl am arloesi a'r hyn y mae'n ei olygu i'r sector hwn. Dyma pam rydym yn credu bod angen rhaglen benodol - a labordy arloesi i'r sector gwirfoddol - sy'n rhoi'r amser

a'r gofod i bobl ddysgu'n gyflym am dechnegau arloesol a'u defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'u heriau brys.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) yn bodoli i ysgogi'r gwaith o drawsnewid ac integreiddio'r system iechyd a gofal cymdeithasol. A yw hyn yr un peth ag arloesi? Mae llawer o RPBs wedi'u tynnu i mewn i ddarpariaeth weithredol pan ddylent fod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol o ddiwallu anghenion partneriaeth a chydweithio. Mae hefyd angen lle arnynt i feddwl am arloesedd.

Mae Gofal a Thrwsio wedi adrodd 'pryderon aciwt' sy'n effeithio ar eu gwaith bob dydd nhw a'u hasiantaethau, gan nodi bod y bylchau a'r heriau a wynebir gan GIG Cymru yn effeithio ar y cymorth y gallant ei roi i'w cleientiaid, a hyn i gyd wrth wynebu llwyth achos cynyddol. Rydym wedi clywed straeon eraill tebyg gan fudiadau eraill – ceir mwy o fanylion mewn papur ar Bwysau'r Gaeaf a gyflwynwyd mewn cyfarfod diweddar rhwng y sector gwirfoddol a'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Strategaeth Arloesi allu dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol i heriau dybryd brys. Mae angen iddi ddangos ei gallu i gefnogi cyflymdra gwahanol yn ogystal â chreadigrwydd a gwahanol fathau o ddatrysiadau nad ydynt yn digwydd fel arall.

Gallai hyn wneud iechyd a gofal cymdeithasol yn faes pwysig i ganolbwyntio ar arloesi ar sail heriau. Mae heriau brys sy'n galw am ddatrysiadau arloesol. Gellir datblygu'r rhain orau drwy gydweithio sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cylch gwaith iechyd i greu system iechyd traws-sector mwy holistaidd. Mae'r heriau brys yr ydym yn eu hwynebu yn gofyn am y math hwn o ymateb. Gallai hyn fod yn ffocws da ar gyfer un o genadaethau'r strategaeth.

Rhaid i alluoedd digidol gael eu hymwreiddio i mewn i ofal cymdeithasol yn yr un modd ag y maen nhw'n cael eu blaenoriaethu yn y maes gofal iechyd, a bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwerth cymdeithasol. Mae gan Brosiect Caledi Digidol Pen-y-bont ar Ogwr astudiaethau achos sy'n dangos y gwahaniaeth y gall ymyrraeth ei wneud i alluogi'r rheini ar incymau isel i gael eu cynnwys yn ddigidol, er enghraifft, drwy ddefnyddio seinyddion clyfar i alluogi rhywun sy'n byw ar ben ei hun i gysylltu â rhywun os bydd yn cwympo gartref, neu roi llechi i bobl i ganiatáu iddynt wneud eu siopa neu gyfathrebu â theulu neu ffrindiau. Mae'r lefel hon o arloesi digidol yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy gofal cymdeithasol.

Mae'r Strategaeth Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn berthnasol. Mae'n rheoleiddio ar gyfer 'modelau gofal sy'n lleihau milltiroedd teithio ac yn cryfhau'r gweithlu cymunedol lleol'. Mae'r math hwn o arloesi eisoes yn bodoli a gall bod yn rhan o'r gwaith o gyflawni nodau'r Strategaeth Arloesi ar gyfer arloesi yn y maes gofal cymdeithasol.

Bydd cynlluniau gweithredu a chyfathrebu'r cynlluniau hyn yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau a'r arloesi sydd ei angen.

C15. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae'r Strategaeth Arloesi arfaethedig yn bwriadu sicrhau datblygiadau amlieithog yn ddiofyn.
Ydych chi'n cytuno bod y strategaeth yn amlinellu'r ffyrdd y mae'n gobeithio creu'n llwyddiannus yr amodau cywir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau arloesi arfaethedig? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol dylid eu cynnal?

Gweler yr ymateb i C20.

C16. Un o nodau'r strategaeth yw creu diwylliant o arloesi yng Nghymru, un sy'n cydweithio, yn rhannu risg, yn hybu cyfranogiad ac yn helpu'r ecosystem i arloesi.

a. Beth mae diwylliant o arloesi yn ei olygu i chi? Beth sydd ei angen i ddatblygu diwylliant o arloesi yng Nghymru?

Er mwyn datblygu diwylliant o arloesi, mae angen egluro'n union beth mae arloesi yn ei olygu mewn Cymraeg Clir. Ni all pobl gefnogi rhywbeth nad ydynt yn ei ddeall. Yn aml, mae'n cynnwys jargon, iaith academaidd ac iaith dechnegol sy'n gwneud i bobl deimlo eu bod wedi'u hallgau.

Mae angen gweledigaeth gref arnom. Mae hefyd angen rhaglenni ac adnoddau ymarferol arnom er mwyn i'r ymarferwyr heb arbenigaeth chwalu'r rhwystrau hyn. Fel arall, bydd yn ddiwylliant cul iawn – na fydd yn arwain at arloesedd.

Yn aml, mae CGGC yn ymddwyn fel pont i gysylltu grwpiau gwirfoddol a chymunedol ag arbenigwyr arbenigol. Mae gennym brofiad o weithio gydag eraill i gynhyrchu'r adnoddau a'r rhaglenni sy'n egluro syniadau a dulliau fel 'arloesi'. Hwn yw'r cam cyntaf i greu newid diwylliannol. Gall cysylltu pŵer arloesi gyda phŵer gweithredu gwirfoddol a chymunedol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

b. Ydych chi'n teimlo bod gennych chi gyfle i gymryd rhan mewn arloesedd? Esboniwch pam eich bod yn teimlo y gallwch chi / na allwch chi gymryd rhan mewn arloesedd?

Yn rhy aml o lawer, mae'n teimlo fel rhywbeth sy'n cael ei wneud 'draw fan'na' gan chwaraewyr mawr am gost anferth. Yn aml, nid yw mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt. Bydd newid y meddylfryd hwnnw yn her i'r strategaeth.

C17. Ydych chi'n credu y byddai'r Strategaeth Arloesi hon yn cael effaith gadarnhaol arnoch chi? Os nad ydych chi, sut gellid newid hyn?

C18. Law yn llaw â'r strategaeth derfynol, rydym am gyhoeddi cynllun gweithredu fydd yn delio ag adnoddau'r strategaeth a sut y caiff ei rhoi ar waith. Bydd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ran bwysig i'w chwarae o ran rhoi'r strategaeth ar waith, felly hefyd Llywodraeth Cymru a chyrff a phartneriaid eraill. Nid oes gan Gymru ar hyn o bryd un corff arwain sy'n gyfrifol am drefnu a chynnal ein system arloesi. Sut hoffech chi weld y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith?

Mae angen i gyd-gynhyrchu fod wrth wraidd y Strategaeth a'i gweithrediad. Dylai pob rhan o'r llywodraeth, pob sector a phob aelod o'r cyhoedd deimlo perchnogaeth ohoni (gweler yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd <https://wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu/>, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru).

Bydd angen corff neu grŵp o hyd i yrru'r gwaith o ddarparu, dysgu a chymryd rhan. Mae'n bwysig bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth, ynghyd ag arweinwyr ar draws yr ecosystem. Hoffem weld trefniant llywodraethu traws-sector.

Bydd gwaith craffu cyson a thryloyw ar y Strategaeth yn hanfodol i fonitro'r ddarpariaeth, deall beth sy'n gweithio neu fel arall ac i ddwyn ein gilydd i gyfrif. Mae hyn i gyd yn rhan o sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd.

C19. Pa grŵp rhanddeiliaid ydych chi'n ei gynrychioli yn eich barn chi:

- mudiadau ymchwil / sefydliadau academaidd

- ○ y sector preifat
- ○ dinesydd
- ◉ y trydydd sector
- ○ grŵp cymunedol
- ○ y sector cyhoeddus
- ○ arall (nodwch):

C20. Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai Strategaeth Arloesi Cymru'n eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Rydym yn credu y gallai fod effaith fechan bosibl ar hybu'r iaith Gymraeg ac ar gyfleoedd cyllido dilynol, os na fyddant yn cael eu rhoi'n gyfartal. Nid oes cymaint o brosiectau a chyfleoedd i arloesi mewn Cymraeg iaith gyntaf, felly byddai rhoi mwy o gyllid a chanllawiau i'r prosiectau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg yn bosibilrwydd er mwyn helpu i wella a hyrwyddo cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fodd bynnag, bydd hyn yn fanteisiol dros ben mewn ardaloedd lle siaradir Cymraeg fwyaf, oherwydd y rhain hefyd yw'r ardaloedd sy'n derbyn y lleiaf o ddatblygiadau a chyllid. Gallai cyflwyno mwy o gyllid am fod y prosiect yn Gymraeg fod yn fuddiol i'r ardaloedd hyn.

Sut gallai dulliau arloesi gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

C21. Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r strategaeth arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C22: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Diolchwn i'r holl fudiadau sydd wedi cyfrannu at ein hymateb, gan gynnwys Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, PRIME Cymru, Community Furniture Aid, Cynulliad Merched Cymru, Prince's Trust Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru a Cwmpas, yn ogystal â nifer o gyfranwyr unigol.

Bydd CGGC yn fwy na bodlon cwrdd â Gweinidogion neu swyddogion i drafod y pwyntiau a wnaed yn yr ymateb hwn ymhellach.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

Canva

Ein hymateb

Y Strategaeth Arloesi i Gymru

1. Mae CGGC yn blaenoriaethu gwydnwch economaidd dros dwf economaidd a hoffai weld y Strategaeth yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod Cymru yn gallu bod yn fwy gwydn yng ngŵydd yr heriau presennol a heriau'r dyfodol.
2. Mae rheidrwydd moesol i arloesi fod er budd a ffyniant cymdeithasol holl ddinasyddion Cymru.
3. Hoffai CGGC weithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid i ddarparu'r cymorth ar gyfer adeiladu'r sgiliau, y capasiti a'r rhwydweithiau i gynyddu arloesedd ar draws y sector.

Gallwch ddarllen yr ymateb llawn yn LINK.

Twitter

Dyma'r prif bwyntiau o'n hymateb i Strategaeth Arloesi ddrafft Llywodraeth Cymru. Darllenwch y ddogfen lawn yn LINK.